



Branwen – CA5

Tasg 3 – Trydargerdd

Un o'r rhannau enwocaf yn stori Branwen yw'r darn sy'n disgrifio Branwen yn anfon y drudwy dros y môr gyda llythyr yn ei blu er mwyn dweud wrth Bendigeidfran ei brawd ei bod hi'n cael ei cham-drin. (Darllenwch y darn ar frig tudalen 37.)



Ar hyd y canrifoedd, mae pobl wedi dyfeisio ffyrdd o gysylltu â'i gilydd dros bellter. O anfon arwyddion mwg i chwifio baner, o neges mewn potel i lythyr, o deigram i neges destun. Un o'r ffyrdd mwyaf poblogaidd erbyn heddiw yw trwy 'drydar'.

Mewn neges drydar, tan yn ddiweddar iawn, doedd dim modd defnyddio mwy na 140 o nodau cyfrifiadurol (erbyn hyn mae hyn wedi dyblu i 280 o nodau cyfrifiadurol). Mae hyn yn gofyn am ddyfeisgarwch a chynildeb.

Ar y rhaglen radio boblogaidd *Talwrn y Beirdd*, mae Ceri Wyn Jones, y *Meuryn*, (sef yr enw ar yr un sy'n rhoi'r marciau i'r tимоedd o feirdd am eu gwaith) wedi cyflwyno mesur newydd: 'trydargerdd'.



Yn union fel roedd y neges ddigidol, nid oes modd i bennill trydargerdd fod dros 140 o nodau cyfrifiadurol.

Dyma rai enghreifftiau o'r llyfr *Pigion y Talwrn*.

Jones, C. (gol) (2016) *Pigion y Talwrn*, Barddas: Talybont

Cewch chi benderfynu sawl marc allan o 10 y byddech chi wedi rhoi am y trydargerddi hyn!

(Tybed allwch chi adnabod pa ddwy neges sydd ar ffurf englyn?)

RHESTR SIOPA

Cyri twym o Gastell Newy',

Dau bwys o briwns a ffisig 'di rhewi,

Deg tun o fins i'm cadw'n iach

A phum rôl ar hugain o bapur tŷ bach.

Dewi Pws Morris

JÔC ADDAS AR GYFER CRACYR NADOLIG

C. Beth wedodd y twrci yr hoffai fel present?



A. Nadolig bach arall. Cwciwch y ffesant.

Dewi Pws Morris

NEGES YN DWEUD Y DREFN

#gwellcymraegslacna...

Stwffia dy agweddau *stuffy*, so *what* os yw'r geiriau teidi a'r treiglade'n eisiau gen-i? Wa'th ma' hon yn iaith i mi.

Llion Jones

NEGES YN CEISIO DAD-WNEUD CAMGYMERIAD

Duw ddihunodd y dydd hwnnw a dweud: 'os dyn ar fy nelw sy'n troi fy myd yn lludw, myn diawl, gwnaf fotwm *undo*'.

Llion Jones

TASG

Lluniwch drydargerdd ar y testun: 'Neges mewn argyfwng at frawd mawr'.